24. ER MWYN BYW
(stori o'r ail ganrif ar bymtheg)

Yn yr ail ganrif ar bymtheg bu i ŵr o'r enw William Brewster roi enwau go od i'w blant. Galwodd un mab yn Love a'r llall yn Wrestling. Yn achos Wrestling nid ymladd corfforol oedd ganddo mewn golwg. Ond y math o ymladd ysbrydol a wnâi rhywun yn erbyn pwerau'r fall, a chyda Brenhinoedd ac awdurdodau crefyddol oedd â'u bryd ar rwystro person rhag addoli Duw yn y ffordd y dylid.

Yr oedd teulu Brewster yn Arwahanwyr, a olygai na fyddent yn mynychu'r Eglwys ar y Sul ond yn cynnal eu gwasanaethau eu hunain: un yn y bore o tua wyth o'r gloch hyd ganol dydd, a'r llall o ddau tan amser te! Nawr, beth bynnag yw eich barn am wasanaethau pedair awr tybiaf y cytunech y dylai pobl gael yr hawl i fynd iddynt os dymunant. Ond yn Lloegr yr ail ganrif ar bymtheg roedd bywyd yn galed iawn i Arwahanwyr. Caent eu pardduo, roedd pobl yn cario straeon amdanynt, caent eu diswyddo ac fe garcharwyd rhai. O'r herwydd bu'n rhaid i amryw symud i fyw. Ymfudodd y rhai cyntaf i'r Iseldiroedd. Ond o fewn ychydig flynyddoedd roedd cynlluniau i symud ymhellach ar draws môr yr Iwerydd i'r byd newydd yng ngogledd America.

Ac felly, ar yr 20fed o Fedi 1620, bu i William Brewster, ei wraig Mary, ei fab naw mlwydd oed Love, a Wrestling oedd yn chwech,

gychwyn ar eu mordaith fawr.

Yr oedd y fordaith yn hunllefus. Am chwe deg a saith o ddyddiau bwriwyd eu llong, y *Mayflower*, i fyny ac i lawr ar y tonnau gwyllt, a chwipiai'r gwynt yn ddidostur. Ar fwrdd y llong roedd yr amgylchiadau'n druenus gyda 120 o bobl oer, gwlyb, drewllyd, sâl wedi eu gwthio at ei gilydd mewn man nad oedd fawr mwy na chwrt tenis.

Gallwch ddychmygu eu rhyddhad wrth lanio ar dir sych. Y dydd Llun hwnnw, am y tro cyntaf ers chwe wythnos a hanner, cafodd Love a Wrestling gyfle i sythu eu coesau. Gyda'r gwynt yn eu gwalltiau a thir sych y byd newydd o dan eu traed efallai eu bod yn dychmygu fod y gwaethaf drosodd. Ond camsyniad oedd hynny.

Yr oedd y Pererinion (fel y daethant i gael eu hadnabod) wedi glanio mewn man gogleddol ar adeg wael o'r flwyddyn. Yr oedd y tirlun yn foel ac wedi ei chwipio gan wynt. Yr oeddynt yn wan ac yn flinedig. Ond gyda dycnwch a grym penderfyniad aethant ati i godi tref newydd o ddim. Ond yr oedd y cyfan yn ormod. Cyn hir yr oedd gwŷr a gwragedd a phlant yn marw fel gwybed – gynifer â thri y dydd weithiau. Ac os nad oedd hynny'n ddigon, rhaid oedd iddynt eu claddu liw nos. Pam? Rhaid oedd sicrhau na ddeuai'r Indiaid lleol i wybod mor brin oeddynt o ddynion abl i warchod y dreftadaeth rhag i'r rheiny ymosod arnynt a'u difa'n llwyr.

Am bedwar mis enbydus buont yn crafu byw. Ond yna, gyda dyfodiad y gwanwyn, bu ffawd yn garedig a daeth tro ar fyd.

I ddechrau, bu cyfarfod gyda'r pennaeth Massasoit, arweinydd yr Indiaid lleol. Roedd wyneb y pennaeth wedi ei beintio'n liw piws deniadol y diwrnod hwnnw wrth iddynt gyfarfod ar fryn nid nepell o'r dreftadaeth. Daeth â chwe deg o Indiaid wedi eu lliwio'n goch, gwyn, melyn a du gydag ef. Ond yn ffodus ymweliad cyfeillgar oedd hwn. Mewn seremoni ysblennydd dygwyd y pennaeth i mewn i bentref y Pererinion. Yno, wrth eistedd ar gwrlid gwyrdd, daeth ef a'r ymsefydlwyr i gytundeb. Ymhlith y pethau a basiwyd, cytunwyd na fyddai'r ymsefydlwyr yn dwyn oddi ar yr Indiaid. Fel ei ran yntau o'r fargen cytunodd y pennaeth Massasoit i gyd-fyw â hwy mewn heddwch.

Ond mae rhagor i'r stori. Pan adawodd Massasoit a'i ddewrion, gadawsant rywun o'u hôl: Indiad o'r enw Squanto. Yr oedd Squanto

wedi bod yn Llundain. Gallai siarad Saesneg yn dda. Arhosodd gyda'r pererinion i fod yn dywysydd iddynt. Dysgodd iddynt holl gyfrinachau'r pridd. Diolch iddo, y flwyddyn honno fe gawsant gynhaeaf llwyddiannus a derbyniodd yr Indiaid wahoddiad i ddathliad y cynhaeaf.

Felly bu i'r pererinion oroesi. Bu i'w trefedigaeth ffynnu. A heddiw, ar draws Gogledd America, y mae pobl yn dathlu eu llwyddiant. Ond fe gwyd eu stori gwestiwn. Goroesodd yr ymsefydlwyr hynny oherwydd, gan wybod na allasent lwyddo eu hunain, iddynt dderbyn cyfeillgarwch Pennaeth Massasoit ac arweiniad Squanto. Y cwestiwn yw: A ydyn ni'n barod i dderbyn cymorth? Heddiw, trwy Iesu, y mae Duw yn cynnig i ni ei anrheg o gyfeillgarwch. Gallwn dderbyn yr Ysbryd Glân fel ein tywysydd. Yn awr – fel y pryd hynny – rheidrwydd o oroesi yw hi. Ni yn goroesi marwolaeth i fwynhau rhyddid perffaith ym myd newydd Duw.

Meddyliwch amdano. Iawn?

HYD: 4–5 munud

NEGES: Trwy Iesu fe allwn brofi cyfeillgarwch Duw ac arweiniad yr Ysbryd Glân a'i gymorth.

DARLLEN: Ioan 4: 6–26; Eseia 65: 17–25.

GWYBODAETH YCHWANEGOL:
Glaniodd y pererinion mewn lle a adwaenir erbyn hyn fel Massachusetts a sefydlu trefedigaeth a elwid yn Plymouth. Nid oedd pob un o deithwyr y *Mayflower* yn Arwahanwyr. Yr oedd amryw ohonynt yn bobl o ychydig adnoddau yn gobeithio cael bywyd gwell iddynt eu hunain yn y Byd Newydd. Bu farw Wrestling Brewster yn 1635 a Love yn 1650. Heddiw y mae teuluoedd yng ngogledd America yn coffáu gwledd ddiolchgarwch gyntaf yr ymsefydlwyr ar Ddydd Diolchgarwch – gŵyl genedlaethol a ddathlir ar ddydd Iau olaf mis Tachwedd.